# Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

## Amcanion Llesiant Newydd






Fersiwn darllen hawdd.

## Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro







Mae'r Parc Cenedlaethol yn ardal sydd â gwarchodaeth arbennig. Mae'n bwysig ar gyfer:

- Bywyd gwyllt
- Arfordir
- Tirwedd
- Hanes

Mae **Awdurdod y Parc Cenedlaethol** yn rheoli'r Parc Cenedlaethol. Mae'r Awdurdod yn:

- Gofalu am harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol.
- Dod o hyd i ffordd i'r cyhoedd fwynhau a deall y Parc.

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park




Mae'n rhaid i Awdurdod y Parc Cenedlaethol osod Amcanion Llesiant. Mae'r rhain yn dargedau i ddangos pa mor dda rydyn ni'n gweithio.




Rydyn ni wedi edrych ar yr heriau mawr y mae pawb yn eu hwynebu:

- Newid yn yr hinsawdd.
- Gwella iechyd a llesiant.
- Cymunedau cynaliadwy.




Rydyn ni wedi edrych ar ein hamcanion Llesiant i wneud yn siŵr eu bod yn cwrdd â'r heriau hyn.



Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n meddwl am yr amcanion newydd.

# Amcan 1: Cadwraeth



Rydyn ni eisiau atal pethau rhag mynd yn waeth a gwneud yn siŵr bod y fioamrywiaeth yn well.

Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod natur yn ffynnu yn y Parc Cenedlaethol.



Mae **bioamrywiaeth** yn golygu: cael llawer o blanhigion ac anifeiliaid gwahanol gyda'i gilydd.

Mae'n bwysig i natur gael bioamrywiaeth dda.

**Byddwn ni'n gwneud hyn drwy:**



- Atal pethau rhag mynd yn waeth nawr ac wedyn gwneud yn siŵr bod mwy o fioamrywiaeth. Mae hyn yn bwysig ar y tir ac ar y môr.



- Rheoli mwy o dir ar gyfer cadwraeth.



Gallwn ni wneud hyn ar gyfer tir rydyn ni'n berchen arno a gallwn ni gefnogi pobl eraill i reoli eu tir nhw ar gyfer natur.



- Cysylltu ardaloedd natur a chadwraeth ar draws y Parc Cenedlaethol.




- Cefnogi amrywiaeth eang o bobl i gymryd rhan mewn gwneud pethau dros natur.

# Amcan 2: Yr hinsawdd



Rydyn ni eisiau gwneud yr awdurdod yn garbon niwtral erbyn 2030. Rydyn ni eisiau cefnogi'r Parc Cenedlaethol i fod yn garbon niwtral.



Byddwn ni'n sicrhau bod y Parc Cenedlaethol yn barod ar gyfer newid yn yr hinsawdd.





**Carbon niwtral**

Mae tanwydd ffosil fel nwy a glo yn creu nwyon niweidiol. Mae carbon niwtral yn golygu gwneud yn siŵr ein bod ni'n gwneud cyn lleied o niwed â phosibl pan fyddwn ni'n defnyddio tanwydd ffosil. Gallwn ni wneud hyn trwy:

- ddefnyddio llai o ynni.
- Defnyddio ynni di-garbon fel gwynt a solar.
- Plannu coed a chefnogi pobl eraill i blannu coed.

| | |
|---|---|
| <br> | **Newid yn yr hinsawdd**<br><br>Mae newid yn yr hinsawdd yn digwydd pan fydd y byd yn:<br><br>• Defnyddio gormod o danwydd ffosil fel glo a nwy<br>• Torri coedwigoedd a choetiroedd i lawr<br>• Llygru'r awyr a'r dŵr<br><br>Mae newid yn yr hinsawdd yn golygu<br><br>• Newidiadau i'r tywydd<br>• Llifogydd<br>• Ymchwydd yn y môr |

**Byddwn ni'n gwneud hyn drwy:**



- Wneud yr awdurdod yn garbon niwtral erbyn 2030.



- Cefnogi'r Parc Cenedlaethol i fod yn fwy carbon niwtral erbyn 2040.



- Gwneud y Parc Cenedlaethol yn well wrth ddelio ag effeithiau newid yn yr hinsawdd.



- Gweithio gyda'n staff a'r cyhoedd i newid sut mae pobl yn meddwl ac yn actio am newid yn yr hinsawdd.

# Amcan 3: Cysylltiad




Rydym ni eisiau gwneud y Parc Cenedlaethol yn wasanaeth iechyd naturiol.



Gall y Parc Cenedlaethol wneud pobl yn fwy hapus, mwy iach ac i deimlo'n gysylltiedig â natur.

**Byddwn ni'n gwneud hyn drwy:**



- Hybu gweithgareddau awyr agored i gefnogi pobl i gael ffordd fwy egnïol o fyw yn y Parc Cenedlaethol.



- Cael pobl i siarad am sut mae'r Parc Cenedlaethol wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd a'u llesiant nhw.



- Ei gwneud yn haws i bobl o wahanol gefndiroedd a chymunedau ddefnyddio'r Parc Cenedlaethol ar gyfer iechyd a llesiant.



- Ei gwneud yn haws i bobl o bob oedran ddysgu am y Parc Cenedlaethol.



- Gofalu am lwybrau yn y Parc Cenedlaethol.



- Gwarchod a gofalu am safleoedd ac adeiladau hanesyddol yn y Parc Cenedlaethol.

# Amcan 4: Cymunedau



Rydyn ni eisiau gwneud y Parc Cenedlaethol yn lle da i bobl fyw, gweithio a mwynhau.



Rydyn ni eisiau i ymwelwyr fod yn dda ar gyfer cymunedau lleol a'r Parc Cenedlaethol.

**Byddwn ni'n gwneud hyn drwy:**



- Weithio gyda chymunedau lleol i ddarganfod beth sy'n bwysig iddyn nhw.



- Gweithio i sicrhau bod cymunedau'n gwneud yn dda.



- Gwneud yn siŵr bod gan bawb opsiynau teithio da, gan gynnwys ein rhwydwaith o lwybrau.



- Sicrhau ein bod ni'n ychwanegu at fywyd yn Sir Benfro. Mae hyn yn golygu:
    - Iaith Gymraeg
    - Diwylliant
    - Hamdden.

# Cwrdd â Nodau Cymru



Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod Nodau i bawb.

Bydd ein hamcanion yn helpu i gwrdd â nhw.




Gallwch chi gael mwy o wybodaeth ar ein gwefan [https://www.arfordirpenfro.cymru](https://www.arfordirpenfro.cymru)

# Rhowch eich barn chi i ni.



Hoffen ni glywed eich barn chi am ein hamcanion.




Mae angen i chi anfon eich atebion i ni erbyn

4 Mawrth 2022.




**Gallwch chi ddweud wrthym drwy e-bost:** mairt@pembrokeshirecoast.org.uk

Rhowch hyn fel y teitl

**Amcanion Llesiant**



**Gallwch chi ysgrifennu llythyr at:**

Cydlynydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth,

Swyddfa'r Parc Cenedlaethol,
Parc Llanion,
Doc Penfro,
Sir Benfro, SA72 6DY

# Hysbysiad Preifatrwydd



Pan fyddwch chi'n ysgrifennu neu'n anfon e-bost aton ni, bydd angen i ni gadw rhywfaint o'ch gwybodaeth.

Mae'r gyfraith yn dweud sut mae'n rhaid i ni:

- Gadw eich gwybodaeth yn ddiogel.
- Dweud wrthych chi sut y byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth.



Gallwch chi gael mwy o wybodaeth am sut rydyn ni'n cadw eich gwybodaeth yn ddiogel drwy gysylltu â **swyddog diogelu data'r Parciau Cenedlaethol.**

# Pam mae angen eich gwybodaeth chi



- I brofi ein bod ni wedi derbyn eich ymateb chi.
- I roi adborth i chi.
- I gadw cofnod o'r holl ymatebion rydyn ni'n derbyn.

# Rhannu gwybodaeth





Mae'n bosib y byddwn ni'n ysgrifennu adroddiad am yr ymatebion.

Byddwn ni ddim yn dweud pwy sydd wedi anfon ymateb.

Os bydd grŵp neu sefydliad yn ymateb, mae'n bosib y byddwn ni'n rhoi eu henw nhw.

Os ydych chi'n ysgrifennu ar gyfer grŵp a dydych chi ddim eisiau i enw'r grŵp gael ei gynnwys yn ein hadroddiad, dylech chi ddweud wrthyn ni.

# Cadw eich gwybodaeth



Byddwn ni ddim yn cadw eich gwybodaeth bersonol am fwy na 3 blynedd.

# Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau:



**Llythyr:**
Rheolwr Gweinyddiaeth a Gwasanaethau Democrataidd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Parc Llanion, Doc Penfro, Sir Benfro, SA72 6DY




**E bost:**
info@pembrokeshirecoast.org.uk



**Ffôn:**
01646 624800

# Os ydych chi eisiau gwneud cwyn neu os oes gennych chi unrhyw gwestiynau:




**Llythyr:**
Swyddog Diogelu Data, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Parc Llanion, Doc Penfro, Sir Benfro, SA72 6DY




**E-bost:**
DPO@pembrokeshirecoast.org.uk




**Ffôn:**
01646 624800